

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATHRAWON

(Amser a awgrymir: 1-2 awr)

Trosolwg

Gofynnwch i'ch disgyblion ddychmygu maint Coed Hynafol - mae rhai o'r coed hyn yn gannoedd, os nad yn filoedd, o flynyddoedd oed. Maent wedi cymryd canrifoedd i dyfu ac yn pwysu sawl tunnell. Meddylwch sawl cenhedlaeth ddynol sydd wedi byw a marw yn yr amser hwn a beth oedd yn digwydd mewn hanes yn ystod yr amser hwn? Sut mae coed yn goroesi cyhyd a pham eu bod mor unigryw? Maent yn gartref i gannoedd o rywogaethau gwahanol o blanhigion, anifeiliaid, adar a phryfed. Byddai ein gwlad yn dirwedd ddiffwrwyth hebbynt.

Mae llawer o organebau bach yn byw tu mewn i'r coed hyn ac arnynt hefyd - adar, planhigion a phryfed na fydded, mae'n debyg, yn sylwi arnynt oni bai eich bod yn chwilio amdanynt. Sut gallwn ni fesur graddfa a maint coeden o'r fath a'i chymharu gydag ystod mor amrywiol o organebau? Er enghraifft, gall derwen gynnal tua 1,000 o wahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid.

Yn y wers hon, byddwn yn ceisio mesur maint y goeden dan sylw ac archwilio rhai o'r mân fanylion fel y blagur, dail a phryfed.

Bydd y wers hon yn tybio eich bod wedi gallu astudio gwefan Yr Helfa Coed Hynafol fel rhan o'r cyflwyniad.

Prif Gysylltiadau Cwricwlwaidd

Sgiliau

Deall

1. defnyddio'u gwybodaeth am waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill i gyfoethogi a llywio'u gwaith eu hunain trwy ddadansoddi/cymharu/gwerthuso.
2. archwilio arferion gweithio amrywiol artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o wahanol gyfnodau/leoedd/diwyllianau gan ystyried eu diben a'u bwriadau
3. gwerthuso'u gwaith, eu dulliau a chanlyniadau eu hymchwiliad gan addasu a mireinio eu gwaith trwy drafod/darllen/llysofennu/myfyrio yn ei glych

Ymchwilio

1. datblygu sgiliau penodol ar gyfer cofnodi ar sail arsylwi/profiadly cofly dychymyg a datblygu sgiliau penodol ar gyfer ymchwilio i'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd gwneud gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
2. archwilio a threfnu ystod o ddeunydd cyfeiriol/ystod o adnoddau er mwyn sefydlu a datblygu syniadau neu themâu
3. cadw llyfr braslunio i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar ymchwilio er mwyn datblygu syniadau a theimladau/archwilio themâu archwilio defnyddiau a phrosesau ac arbrofi â nhw/cychwyn a chefnogi gwaith annibynnol

Gwneud

1. archwilio, arbrofi a chymhwysio elfennau iaith weledol, cyffyrddol a synhwyraidd celf, crefft a dylunio
2. dylunio a gwneud delweddau ac arteffactau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a syniadau
3. cael profiad o ystod eang o dechnegau a chyfryngau i wireddu eu syniadau/mynegi eu teimladau/cyfleu ystyr

Ystod

Deall

Cael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill/gwaith eu cyfoedion/dulliau a phrosesau/delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwyllianau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes.

Datblygu eu dealltwriaeth trwy gyfrwng llyfrau/fideos/adnoddau digidol/rhyngwryd.

Ymchwilio

Ymchwilio i briodweddau defnyddiau a phrosesau/gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol/gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud.

Defnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau perthnasol a gasglwyd o lyfrau/fideos/adnoddau digidol/rhyngwryd/ eu harbrofion ymarferol a'u cofnodion eu hunain ac o amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys enghreifftiau lleol a Chymreig.

Gwneud

Cael cyfleoedd i weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp a gweithio yn yr awyr agored, gan ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau celf a dylunio. Gallu dilyn cyfarwyddiadau i leihau'r risgiau iddynt hwy eu hunain ac eraill

Cysylltiadau cwricwlwaidd eraill

Datblygu cyfathrebu: Cyfathrebu ehangach

Datblygu TGCh

Datblygu Rhif

ADCDF

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 1 Cyflwyniad

Mesur a Choed Hynafol

Arddangoswch faint coeden hynafol. Gofynnwch i un disgybl sefyll o dan y goeden, yna ychwanegwch grŵp i weld faint o ddisgyblion yn dal dwylo sy'n angenrheidiol i amgylchynu'r goeden. Defnyddiwch ffyn mesur ac offer mesur i gyfrifo maint y goeden - y cwmpas a'r uchder. Defnyddiwch y daflen ar fesur coed hynafol o wefan Yr Helfa Coed Hynafol i'ch helpu. Meddyliwch am oedran y goeden hon a'r hanes y mae wedi ei weld dros gannoedd o flynyddoedd. Tynnwch lun o'r goeden ar raddfa lai gyda pherson yn sefyll oddi tani. Mae hyn yn anodd a bydd arnoch angen darn mawr o bapur. Cofiwch fod y canghennau'n culhau'n raddol nes eu bod yn frigau main. Tynnwch lun mor gywir â phosibl gan ddefnyddio papur grid i raddfa. Dyma ymarfer sy'n gofyn am sgiliau mathemategol ac arsylwi manwl.

Trafodwch Goed Hynafol – eu hoed a'u hanes – eu maint a'u graddfa. Ceisiwch gael y disgyblion i drafod sut gellir cofnodi a mesur coed o'r maint yma. Sut dylid tynnu eu lluniau a'u dogfennu fel bo modd defnyddio mesuriadau manwl yn ddiweddarach yn eu gwaith? Pa fath o arsylwadau y mae'n rhaid eu gwneud i sicrhau hyn? Meddyliwch hefyd am fesur tros amser; er enghraifft, dros gyfnod o amser mae hedyn bach fel mesen yn tyfu'n sylweddol iawn gan ffurfio coeden sy'n pwyso sawl tunnell. Sut y gallwn ni nawr dehongli'r ffeithiau a'r ffigurau gwyddonol hyn a chynhyrchu gwers greadigol mewn Celf a Dylunio?

Amcanion Dysgu

- Astudio a dehongli data o wefan Yr Helfa Coed Hynafol a'i ddefnyddio fel adnodd yn y wers hon.
- Defnyddio gwybodaeth a ddysgwyd o bynciau eraill (Mathemateg) wrth greu gwaith celf sy'n gofyn am fesuriadau a graddfa.

Offer angenrheidiol:

- Offer mesur: 1 x tâp mesur deunydd neu hyblyg (6-10m), ffyn mesur
- Darn o gerdyn gyda mesuriadau grid i'w ddefnyddio fel dyfais ar gyfer mesur cyfrannedd y goeden
- Pensiliau o galedwch gwahanol HB-9B
- Miniwr
- Rhwbiwr
- Conté neu siarcol
- Clytiau dwylo
- Llyfrau lluniadu A4 neu A3
- Llyfrau nodiadau, papur grid a chlipfyrddau
- Chwyddwydr
- Dillad ac esgidiau awyr agored addas
- Camerâu
- Casgliad o fagiâu i ddail, brigâu a hadau (Dylech sicrhau nad ydych yn niweidio unrhyw goed)

- Astudio'r testun dan sylw (y goeden) a gwneud lluniadau a mesuriadau dadansodol i'w defnyddio mewn ymarfer diweddarach (Rhan 2).
- Dysgu lluniadu o arsylwad gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau a thechnegau i gofnodi manylion.
- Dysgu gwerthfawrogi pwysigrwydd ein coed a'n bywyd gwyllt a dysgu am fioamrywiaeth ac ecoleg cefn gwlad.

Gweithgareddau

Ar gyfer rhan gyntaf y wers, bydd arnoch angen trefnu ymweliad â safle'r Goeden Hynafol. Cyn yr ymweliad, sicrhewch eich bod wedi edrych ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol ac wedi lawrlwytho taflenni defnyddiol ar sut i adnabod rhywogaethau coed, mesur coed ac ymgyfarwyddo eich disgyblion gyda chysyniad o'r safle a'r côd cefn gwlad. Sicrhewch fod yr adnoddau gyda chi ar gyfer cofnodi a mesur eich coeden.



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3 Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATHRAWON

(Rhan I parhad)

• **Edrychwch ar y goeden a ddewiswyd.**

Pa siâp yw hi? A yw'n plygu neu'n gogwyddo, a yw'n syth a thalsyth gydag un boncyff mawr, neu a yw'n goeden â llawer o ganghennau? A yw'n goeden ddigoes neu'n docbren? A yw'n geubren neu a yw wedi dioddef unrhyw niwed? Allwch chi adnabod rhywogaeth y goeden?

Mae'r holl wybodaeth angenrheidiol i ddeall y gwahanol dermau hyn ar gael ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol. Am restr o gyhoeddiadau sydd ar gael, ymwelwch â:

www.woodland-trust.org.uk/ancient-tree-forum/atfresources/resourcesbooks.htm.

Gwneud Arolwg a Mesur eich Coeden

Nawr trafodwch y syniadau hyn gyda'ch disgyblion wrth archwilio'r goeden (gan gymryd amser i archwilio'n ofalus o amgylch eich coeden).

• **Ym mha fath o gyflwr mae'r goeden?**

• **A oes unrhyw ganghennau meirwon neu geubren?**

Os felly, gall hynny ddangos fod y goeden yn nhraean olaf ei bywyd. Yn fras, dywedir fod coed yn tyfu am draean o'u bywyd, yn byw am draean, ac yn marw am draean. O gofio y gall coeden fyw am 600 mlynedd, mae rhannu hynny gyda 3 yn golygu fod y goeden yn dirywio am 200 flynedd tuag at ddiwedd ei bywyd os yw'n byw am 600 mlynedd.

• **Cofnodwch rywogaeth a chyflwr eich coeden.**

Er enghraifft, gall fod yn geubren (arwydd arall o henaint).

• **Ystyriwch pa mor drwm yw'r goeden hon?**

Sut mae'n cynnal canghennau mor fawr sy'n ymestyn allan cymaint ag 20 metr?

Pa fath o strwythur gwreiddiau sydd ganddi i wrthsefyll y stormydd a'r corwyntoedd a pharhau i gynnal y pwysau mawr hyn? Yn aml, bydd gwreiddiau coeden yn ymestyn o dan y ddaear cyn belled â'r canghennau wrth iddynt chwilio am ddŵr a maetholion ac fel angor i gynnal y pwysau anferthol hyn.

• **Sut ydych chi'n mesur oedran eich coeden?**

Gweler y canllawiau ar fesur coed ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol, sef www.woodland-trust.org.uk/ancient-tree-forum/atfresources/resourcesbooks.htm. Un ffordd o fesur yw gofyn i nifer o ddisgyblion ymestyn eu breichiau o amgylch y goeden nes y gallant gyffwrdd ei gilydd, ac yna'u cael i sefyll mewn llinell gyda'u breichiau wedi'u hymestyn a mesur yr hyd. Dyma gylchedd y goeden. Tynnwch ffotograff ohonynt gyda'u breichiau wedi'u hymestyn fel rhan o'ch casgliad ffotograffau, ynghyd â lluniau ohonynt yn mesur a braslunio'r goeden. (Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn yn ddiweddarach fel cysylltiadau â gwersi eraill sy'n ymwneud â phrosiectau coed).

• **Nawr, allwch chi amcangyfrif uchder y goeden?**

Sefwch ymaith o'r goeden ac edrychwch i fyny at y ddeilen neu gangen uchaf. Dychmygwch, petai'r goeden yn syrthio, lle fydddech chi'n sefyll fel bo'r corun yn syrthio wrth eich traed. O'r pwynt hwn, cyfrwch eich camau tuag at foncyff y goeden – mesurwch eich cam troed a lluoswch yr ateb gyda nifer y camau, ac yna mae gennych frasmcan o'r uchder. Gwnewch nodyn o'r holl fanylion hyn. Am fesuriad mwy cywir, gellir defnyddio clinomedr (dyfais i fesur uchder gwrthrychau), ond gallant fod yn gostus. Felly, er diben ein gwers, bydd mesur y camau yn gymharol syml ac yn weddol gywir.

• **Nawr, mesurwch ehangder y goeden**

– dyma'r pellter y mae'r canghennau'n ymestyn oddi wrth y boncyff. Mae'n bosibl y bydd eich coeden yn anwastad gydag un ochr yn ymestyn fwy na'r llall. Pam fod hynny'n digwydd? Efallai bod adeilad neu goed eraill i'r ochr yn rhwystro'i thwf i'r cyfeiriad hwnnw. Mae coed, fel blodau, yn ymladd yn naturiol am y goleuni, felly byddant yn tyfu tuag at y ffynhonnell fwyaf llachar. Pam eu bod yn gwneud hyn? Fel gall y dail ddefnyddio'r goleuni i wneud egni a bwyd i'r goeden, fel ei bod yn gallu tyfu. Gelwir hyn yn ffotosynthesis.

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATHRAWON

(Rhan I parhad)

Bydd gan eich disgyblion bellach y ffeithiau hanfodol am eu coeden ar ffurf nodiadau, a set o ffotograffau o'r gweithgaredd

- **Nawr, beth am luniadu a thynnu ffotograffau o'r goeden.**

Mae'n rhaid gwneud hyn mor ofalus a chywir â phosibl, oherwydd yn y wers nesaf, bydd arnynt angen y manylion hyn i baratoi'r gwaith celf gaiff ei raddio i fyny

- **Dechreuwch drwy dynnu ffotograffau o'r goeden.**

Gofynnwch i'r disgyblion sefyll yn ôl er mwyn cael y goeden gyfan yn y ffrâm gan gynnwys yr holl ganghennau ochr. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd arnynt angen llun o'r fath i gyfeirio ato wrth wneud y fersiwn wrth raddfa. Beth am ofyn i rywun sefyll dan y goeden i arddangos eu graddfa yn erbyn y goeden? Ceisiwch hefyd wneud cofnod ffotograffig o'r gweithgareddau gan y gallai hynny gyfrannu at brosiectau dylunio yn y dyfodol neu at stori mewn cydweithrediad â'r adrannau iaith neu hanes. Os oes gennych ddiddordeb mawr, gall fod yn rhywbeth y gallech ei wneud fel prosiect y tu allan i'r ysgol, gan fanteisio ar y gymuned leol a'u gwybodaeth o gefn gwlad.

Tynnwch luniau manylach hefyd o amgylch y goeden.

Tynnwch luniau agos o'r boncyff, canghennau, dail a blagur. Gall y disgyblion ddefnyddio'r rhain ar gyfer gwneud gwaith manylach ar y gwaith celf terfynol.

- **Gwnewch frasluniau ac arsylwadau fel lluniau.**

Mae'r rhain yn aml yn cyfleu mwy na ffotograff oherwydd mae'n ein galluogi i astudio manylion a ffurf, sef rhywbeth y bydd y person sy'n lluniadu yn unig yn ei weld. Mae'n cymryd ychydig eiliadau yn unig i bwyntio camera, ond gall lluniadu am 15-30 munud fod yn fwy diddorol a dwys gyda'r fantais o edrych am fywyd gwyllt ar yr un pryd, oni bai wrth gwrs eich bod yn ffotograffydd brwd. Os felly, byddwch hefyd yn chwilio'n ofalus am y golau a'r ongl gywir i gipio'r eiliad hudol.

Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion am dynnu llun y goeden gyfan fel y gallant ddefnyddio hwn i raddio i fyny ar gyfer y fersiwn terfynol yn hytrach na defnyddio ffotograff. Cymerwch daflen y disgybl uned 3, a gan godi pensil i fesur cyfraneddau'r goeden, gofynnwch i ddisgyblion luniadu manylion a maint a siâp y goeden. Dull arall gwahanol i'r dull defnyddio pensil yw cael darn o gerdyn gyda mesuriadau grid tebyg wedi'i nodi arno ychydig fel ffon fesur. Gellir codi'r cerdyn at bwynt lle mae'r top a'r gwaelod yn dangos corun a gwaelod y goeden. Wedyn, gellir nodi'r canghennau a'r pwyntiau rhyngddynt yn haws, a'u trosglwyddo i bapur grid mewn llyfr lluniadau. Gellir graddio'r grid i lawr i gyfateb i faint y papur yn y llyfr. Dyma ymarfer pwysig gan ei fod yn rhoi'r canllawiau ar gyfer lluniadu unrhyw wrthrych mewn cyfrannedd – coeden, tirwedd, wyneb neu fywyd llonydd.

Trafodwch gyda disgyblion mai lluniadu wrth arsylwi yw'r ffordd orau bob amser o ddeall testun. Gallwch ei weld a cherdded o'i gwmpas, ei gyffwrdd; ydy o'n llyfn neu'n arw, sut gallwch chi wedyn ddefnyddio eich pensiliau a siarcol i gynhyrchu'r effaith hon ar bapur? Yn y rhan nesaf, efallai y bydd ar y disgyblion eisiau defnyddio ystod o ddeunyddiau i gyfleu effaith arbennig. Mae pensiliau miniog yn cyfleu manylder yn dda, tra bod pensiliau meddal a siarcol yn cyfleu darnau meddal neu solet. Gofynnwch i'r disgyblion geisio ymarfer gyda'r rhain i weld pa ganlyniadau y maent yn eu hoffi. Gall y disgyblion dreulio peth amser yn lluniadu a chasglu dail, hadau a brigau, gan fod modd i'r rhain hefyd fod yn rhan o'r gwaith gorffenedig. Fel ymarfer grŵp, mae'n bosibl rhannu disgyblion yn grwpiau fel y gall rhai luniadu'r goeden gyfan ac eraill wneud lluniadau wrth raddfa fanwl o'r gwrthrychau a gasglwyd, gan eto ddefnyddio'r grid i'w helpu i bennu'r cyfraneddau'r cywir. Erbyn hyn, dylent fod â chyfres o luniadau ac arsylwadau manwl ynghyd â chyfres o ffotograffau a nodiadau am eu coeden.

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 2 Amcanion dysgu

- Trosi'r wybodaeth a gofnodwyd yn y sesiwn awyr agored yn lluniad neu baentiad wrth raddfa orffenedig.
- Dysgu sut i ddefnyddio grid i raddio a mesur gwaith celf.
- Archwilio a dadansoddi gwrthrychau organig yn fanwl a chofnodi'r wybodaeth hon.
- Dethol a defnyddio'r cyfryngau mwyaf addas i'w gwaith.
- Defnyddio gwybodaeth o bynciau eraill fel Mathemateg a Hanes i gefnogi'r dysgu hwn.
- Cyd-weithio fel tîm i gynhyrchu'r gwaith celf terfynol.
- Trafod gwaith ei gilydd mewn modd teg a beirniadol er mwyn gwella'r canlyniadau.

Gweithgaredd (Nodiadau)

Trafodwch gyda'r disgyblion: bob tro y byddwn yn lluniadu rhywbeth, byddwn yn graddio'r testun yn naturiol i ffitio'r papur heb feddwl am y peth o gwbl. Mae gan yr ymennydd y gallu i weld gwrthrych a gwybod ei fod yn grwn neu'n syth neu ychydig yn dolciog. Gall ddweud a yw'n feddal neu galed, llyfn neu'n arw. Mae arsylwi a dadansoddi gofalus yn ein galluogi i gynhyrchu lluniadau o'r gwrthrychau mwyaf cymhleth. Gan eu bod yn defnyddio deunyddiau i lunio manylion mân neu beintio darnau mawr, gallant nawr gynhyrchu argraffiadau graddfa o'r goeden a ddewiswyd ganddynt.

Gweithgaredd (Dull)

Gweithio gyda disgyblion (Defnyddio taflen y disgybl lle bo hynny'n briodol) i;

Naill ai raddio lluniadau i lawr os yw'n goeden gyfan gan ddefnyddio grid i bennu safle'r boncyff a changhennau, neu luniadu'r hadau neu'r dail i'r union faint neu'n fwy na'u maint go iawn. Gofynnwch i'r disgyblion gymryd brigyn gyda chlwstwr o ddail fel enghraifft. Os yw hwn yn ffitio ar y papur, yna ceisiwch drosglwyddo yn ofalus faint y dail i'r papur, trwch

Offer angenrheidiol:

- Ffyn mesur
- Pensiliau o galedwch gwahanol HB-9B
- Miniwr
- Rhwbiwr
- Conté neu siarcol
- Clytiau dwylo
- Chwyddwydr
- Llyfrau lluniadu A4 neu A3
- Llyfrau nodiadau, papur grid a chlipfyrddau
- Potiau dŵr a deunyddiau peintio
- Printiau ffotograffig, nodiadau a lluniadau o'r sesiwn flaenorol (Rhan 1).

y brigyn prenaidd neu'r gangen fach eto gan arsylwi'n ofalus. Atgynhyrchwch siâp a gwead y dail a'r darnau prenaidd. Edrychwch ar y blagur, y tyfiant newydd a'r hen dyfiant. Defnyddiwch grid i'w helpu i raddio pob rhan i'r safle cywir ar y papur.

Neu, os yw'n well gennych, gall y disgyblion ddefnyddio'r grid i helaethu eu dail, fel 4-10x yn fwy. Edrychwch yn ofalus ar y gofod a'r pellter rhwng y manylion ar y dail a'r brigau. Bydd arnynt angen chwyddwydr i weld manylion agosach na x1. Edrychwch yn ofalus ar faint gwythien ar ddeilen mewn cymhariaeth â'r ddeilen gyfan. Dyma lle mae mesuriad yn bwysig. Mae'r cyfryngau sy'n cael eu defnyddio, fel pensiliau, hefyd yn bwysig. Allwch chi ddim llunio llinell fain gyda brwsch mawr neu bensil meddal. Astudiwch Matisse a Picasso - mae eu lluniadau yn llawn o fanylion mân iawn, eto i gyd, maent yn peintio ac yn cynhyrchu'r gwaith mwyaf rhydd a chreadigol. Y pwynt pwysig i'w wneud fan hyn yw mai rhoi sylw i fanylion ac astudiaeth ofalus, ynghyd â meddwl creadigol sy'n gallu mynegi'n rhydd, fydd yn rhoi'r canlyniadau mwyaf cyffrous.

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3 Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATHRAWON

(Rhan 2 parhad)

Gofynnwch i'r disgyblion arbrofi gyda phensiliau caled a meddal i weld pa fath o linellau allan nhw eu cynhyrchu. Bydd gweithio gyda chyfuniad o bensiliau a siarcol yn rhoi ystod eang o ganlyniadau i chi.

Gofynnwch i'r disgyblion geisio helaethu deilen o'i maint gwirioneddol i ffitio ar eu tudalen - gofynnwch iddynt edrych ar y manylion mân gyda chwyddwydr a'u graddio i fyny i faint mwy gan ddefnyddio'r grid ar daflen waith y disgyblion. Meddylwch am gyfansoddiad y dudalen; defnyddiwch eu sgiliau dylunio i sicrhau gosodiad diddorol. Peidiwch â phoeni os yw darn o'r ddeilen neu'r brigyn yn cael ei docio; mae hawl creadigol yn golygu fod modd symud gwrthrychau a gorgyffwrdd rhannau i wneud eich dyluniad yn arbennig.

Os ydynt wedi dewis cynnwys y goeden gyfan neu gyfuniad o'r ddau yn eu gwaith celf, gallant ddechrau gweithio ar y manylion ar y goeden naill ai o luniadau blaenorol y maent wedi'u llunio neu o helaethiadau ffotograffig.

Dylai'r ymarfer mewn mesuriad a graddfa fod wedi cynhyrchu canlyniadau gweddol gywir erbyn hyn. Trafodwch y canlyniadau a phenderfynwch pa bethau y gellid fod wedi'u gwella, neu ba ganlyniadau sydd yn dangos gwaith manwl iawn, a pham eu bod yn llwyddiannus

Trafodwch gyda'r disgyblion sut y gellid parhau gyda'r prosiect hwn:

Er enghraifft, gallai hyn fod yn ffordd o arddangos rhywogaeth coeden. Yn achos y dderwen, byddai dangos siâp y goeden (sy'n eithaf nodedig), dail, mes a blagur yn gwneud poster diddorol iawn.

Trwy ychwanegu lliw, gallai hyn ddatblygu yn baentiad, neu'n brosiect tecstilau neu batik.

Efallai y gallent ddechrau meddwl am greu llyfr o ddarluniadau coed o'ch ardal leol gan ddefnyddio darluniadau a sganio i ddylunio hyn ar gyfrifiadur.

Fel prosiect lleol, er enghraifft - cyfweld trigolion lleol h'n sy'n gallu cofio pa fath o olwg oedd ar y goeden pan oeddynt yn blant, a beth oedd yn digwydd adeg honno, e.e. mae diwedd yr Ail Ryfel Byd, dogni, gwahanol fathau o gludiant a phensaerniaeth yn straeon diddorol i'w darlunio neu ysgrifennu amdanynt neu hyd yn oed recordio.



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Mesur a Choed Hynafol

5. Enwch gymaint o rywogaethau coed ag y gallwch mew'n tri munud.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

6. Meddyliwch am gyflwr coeden hynafol iawn a disgrifiwch rhai o'r nodweddion y byddech yn disgwyl eu gweld arni.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

7. Esboniwch sut mae Coed Cadw yn casglu gwybodaeth am goed hynafol a beth maent yn ei wneud gyda'r wybodaeth ar ôl ei derbyn.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

8. Disgrifiwch rhai o'r planhigion a'r bywyd gwyllt sy'n byw mewn coeden hynafol.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

9. Pam y mae coed yn bwysig i'n bywydau? Esboniwch rhai o'r rhesymau am hyn.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

10. Pam y mae mesuriadau a chofnodion o goed hynafol yn bwysig?

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

3720/04/08



Celf a Dylunio CA3

Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN DISGYBLION 2

Gosodwch eich deilen (neu wrthrych arall) ar y grid bach, a gan ddefnyddio'r sgwariau a'r canllawiau, helaethwch a lluniadwch y gwythiennau a'r gwead yn fanwl ar y grid mawr. Defnyddiwch chwyddwydr i weld y ddeilen yn agos.

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3 Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATEBION ATHRAWON i Daflen Waith Disgyblion I

1. Sut byddech chi'n mesur uchder coeden fawr? Rhowch ddwy enghraifft.

Clw – Disgrifiwch sut byddech chi'n cyfrif bob cam o'ch cerddediad a mesur hyn.

Ateb – Ffordd syml yw sefyll ger boncyff y goeden ac yna camu mewn metrau mewn llinell syth i ffwrdd o'r goeden. Pan fyddwch yn cyrraedd pwynt lle na fyddai'r goeden yn eich taro pe bai'n syrthio, yna'r pellter hwnnw yn fras yw uchder y goeden.

Clw – Beth mae clinomedr yn ei wneud?

Ateb – mesur uchder coed ac adeiladau.

2. Nodwch ddwy ffordd o fesur cwmpas coeden.

Ateb – Defnyddio tâp tua 1.5m o waelod y goeden a mesur y cylchedd.

Ateb – Dal dwylo ac ymestyn o amgylch y goeden gyda chyfeillion, mesur pellter hyn.

3. Esboniwch y gwahaniaethau rhwng y mathau hyn o goed: (a) tocbren (b) coeden ddigoes (c) prysgoed.

Ateb a) Mae tocbren wedi'i docio'n rheolaidd uwchben uchder y pen er mwyn cael tanwydd a phren. (Mae hyn i rwystro ceirw ac anifeiliaid eraill rhag ymestyn i fyny i fwyta'r tyfiant newydd wrth i'r goeden flaguro eto).

Ateb b) Mae coeden ddigoes yn goeden sy'n tyfu'n syth i fyny, heb iddi gael ei thocio neu frigidorri.

Ateb c) Mae prysgoed yn goed sy'n cael eu torri i lawr i'r gwaelod ac yna'n cael tyfu eto, e.e. coed cyll a helyg yn cael eu torri a'u defnyddio i greu gwrychoedd ac i ddibenion eraill yn yr ardd; maent yn tyfu'n gyflym ac yn hawdd eu trin.

Mae atebion manwl ar gael ar wefan Coed Cadw.

4. Esboniwch sut y gellir defnyddio grid i helaethu graddfa deilen.

Ateb – Tapio deilen i grid bach (gweler taflen waith y grid), ac yna copio perimedr y ddeilen yn ofalus ar y grid mawr er mwyn llunio amlinell gywir. (Dyma ymarfer da ar gyfer arsylwi gofalus a sgiliau technegol, a gellir defnyddio chwyddwydr i weld y manylion).

5. Enwch gymaint o rywogaethau coed ag y gallwch mewn tri munud.

6. Meddyliwch am gyflwr coeden hynafol iawn a disgrifiwch rhai o'r nodweddion y byddech yn disgwyl eu gweld arni.

Ateb – Mae coed hynafol yn aml yn wag y tu mewn, gyda changhennau meirw.

Ateb – Mae coed hynafol yn aml yn docbrennau yn dyddio nôl i'r amser pan oedd y canghennau yn cael eu torri ar gyfer tanwydd a phren. (Daeth y traddodiad hwn i ben tua 100 mlynedd yn ôl felly mae tocbren yn debygol o fod o leiaf 100 mlwydd oed, ac yn aml lawer yn hŷn).

Ateb – Mae amrywiaeth eang o fywyd gwyllt a phlanhigion yn ymgartrefu mewn coed hynafol.

7. Esboniwch sut mae Coed Cadw yn casglu gwybodaeth am goed hynafol a beth maent yn ei wneud gyda'r wybodaeth ar ôl ei derbyn.

Ateb – Mae Coed Cadw yn adeiladu cronfa ddata genedlaethol o hen goed a choed hynafol i annog cadwraeth a gwarchod coed. Maent yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefan mewn cronfa ddata fawr, er mwyn i'r cyhoedd gael gweld.

8. Disgrifiwch rhai o'r planhigion a'r bywyd gwyllt sy'n byw mewn coeden hynafol.

Ateb – Mae yna nifer o enghreifftiau o wahanol rywogaethau o ffwng, mwsoglau a chennau, adar, wiwerod ac amrywiaeth eang o chwilog a phryfed.

9. Pam y mae coed yn bwysig i'n bywydau? Esboniwch rai o'r rhesymau am hyn.

Ateb – Mae un goeden aeddfed yn darparu digon o ocsigen i gadw 8-10 person yn fyw.

Maent yn cadw ein tirwedd yn ddeniadol ac iach.

Maent yn hardd i edrych arnynt ac yn gwneud i ni deimlo'n dda.

Maent yn cynnal rhywogaethau bywyd amrywiol (Gall un goeden gynnal hyd 1,000 rhywogaeth).

10. Pam bod mesuriadau a chofnodion o goed hynafol yn bwysig?

Ateb – Mae cyfrifiad dynol yn dweud llawer wrthym am oedrannau a dosbarthiad pobl o wahanol hil, ac mae'r un peth yn wir am ein coed. Nid oes cofnodion gwir, ond amcangyfrifon. Trwy adnabod gwahanol rywogaethau a'u lleoliadau, gellir cymryd gofal i'w gwarchod a darparu gwybodaeth werthfawr i gadwraethwyr yn y dyfodol. Mae technolegau newydd fel gwefannau gyda chronfeydd data yn darparu mynediad ehangach ac atebion i'r cwestiynau hyn.



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Mesur a Choed Hynafol

UNED 3: TAFLEN ATHRAWON

Gwaith ysgrifenedig neu waith llafar grŵp, deunyddiau sesiwn

Trafodwch y canlynol gyda'ch disgyblion;

- 1. Pam y mae coed yn bwysig i'n hamgylchedd?
Trafodwch y rhesymau, a beth allwn ni ei wneud i
warchod ein hamgylchedd.**

Ateb

Maent yn darparu ocsigen ac yn gweithredu fel purwyr aer gan amsugno carbon deuocsid a llygryddion. Maent yn gweithredu fel cartref i gannoedd o rywogaethau o adar, pryfed a mamaliaid sydd yn eu tro yn cadw cydbwysedd yng nghefn gwlad ac yn y trefi. Gallwn ddiogelu cefn gwlad trwy sicrhau ein bod yn gwarchod mannau gwyrdd mewn trefi a dinasoedd, trwy warchod ein coetiroedd a'n caeau gwyrdd, a thrwy blannu gwrychoedd a choed. Gallwn hefyd ail-gylchu ein gwastraff.

- 2. Pam y mae cylchgronau mor boblogaidd? Pa
bwyntiau allweddol fyddai'n angenrheidiol i
gynhyrchu cylchgrawn llwyddiannus? (Gallai hyn
gynnwys cylchgrawn am goed a'r amgylchedd).**

Ateb

Maent yn ymdrin ag ystod eang o bynciau poblogaidd a hobiau fel garddio, ffotograffeg, cartrefi a phersonoliaethau. Rhai pwyntiau allweddol posibl - dylunio a ffotograffeg da, erthyglau diddorol ar bynciau arbenigol, ysgrifennu a newyddiaduraeth dda, testunau poblogaidd, llawn gwybodaeth, pwyntiau defnyddiol a dealltwriaeth o anghenion y darllenwyr. Byddai cynnwys hysbysebion gan gwmnïau a gwasanaethau a nwyddau a fyddai o ddiddordeb i'r darllenwyr yn cefnogi hyn. Er enghraifft, offer i'r ardd mewn cylchgronau garddio.

- 3. Sut byddech chi'n cynllunio stori fideo am goed
hynafol?**

Ymchwil

Ymchwilio i'ch testun a chwilio am adrannau diddorol (meddwl am eich fideo fel llyfr – teitl, cyflwyniad, cyfres o

benodau ar bynciau penodol a diweddgllo). Dewis tîm o bobl i ysgrifennu, tynnu delweddau llonydd, lluniadu, saethu'r fideo, llefaru, gwneud effeithiau sain a recordiadau, a golygu'r canlyniadau.

- 4. Beth fyddech chi'n ei wneud i sicrhau eich bod yn
dylunio poster llwyddiannus?**

Trafodaeth

Gofynnwch beth sy'n angenrheidiol, er enghraifft, gwerthu neu hysbysebu rhywbeth.

Pwy yw'r gynulleidfa y byddwch yn ceisio ei pherswadio? Pa fath o ddelweddau a geiriau sy'n ofynnol i wneud y poster yn greadigol a pherswadiol?

- 5. Ysgrifennwch stori fer am gyfnod o amser yn
hanes coeden hynafol yn eich ardal (gallai hyn fod
rhwng 50 a 400 mlynedd yn ôl).**

- 6. Ysgrifennwch sgrïpt i amlinellu stori am
bwysigrwydd coed i bryfed a bywyd gwyllt.**

- 7. Trafodwch ffyrdd diddorol o dynnu ffotograffau o
goed hynafol.**

Camau Gweithredu

Creu gwahanol bersbectifau trwy ddefnyddio ongl lydan neu lensys teleffoto.

Saethu trwy ddail neu wrthrychau eraill i roi dyfnder i ffotograff; lensys macro i dynnu lluniau o bryfed bach neu blanhigion fel ffwng a chennau.

Defnyddio pobl yn y ffotograff i roi graddfa i faint y goeden hynafol.

- 8. Gwnewch gyfweiliad a chofnod o berson lleol yn
siarad am goeden hynafol yn eich ardal.
Defnyddiwch hwn fel podcast i roi ar wefan eich
ysgol.**



COED CADW
WOODLAND
TRUST